

## Geirfa o dermau

Term	Diffiniad
Swyddog cyfrifol	Y swyddog sy'n gyfrifol am drefnu a rheoli materion ariannol ac am adrodd yn ôl i CCAUC ar ran y corff llywodraethu.
Terfyn ffi perthnasol	Y terfyn ffi perthnasol yw: i. Mewn achos lle mae cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf sefydliad yn manylu ar derfyn ffi ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn dan sylw, y terfyn hwnnw; i. Mewn achos lle mae cynllun ffioedd a mynediad diweddaraf sefydliad yn darparu ar gyfer penderfyniad am derfyn ffi ar gyfer y cwrs a'r flwyddyn dan sylw, y terfyn hwnnw fel y penderfynir yn unol â'r cynllun.
Cynllun cymeradwy	Cynllun ffioedd a mynediad sydd wedi cael ei gymeradwyo gan CCAUC ac sydd mewn grym.
Rheoleiddiwr elusennau	<a href="#">Y Comisiwn Elusennau</a> , <a href="#">Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban</a> y <a href="#">Comisiwn Elusennau ar gyfer Gogledd Iwerddon</a> , a <a href="#">HEFCE</a>
Cyfle cyfartal	Er nad yw <a href="#">Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015</a> (y cyfeirir ati hefyd mewn canllawiau fel 'Deddf 2015') yn darparu diffiniad, <a href="#">mae canllawiau Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau ffioedd a mynediad</a> yn datgan bod cyfle cyfartal mewn perthynas â mynediad i addysg uwch yn ymwneud â chael gwared ar y rhwystrau i addysg uwch a wynebwr gan grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Hefyd, mae paragraff 4.18 canllawiau Llywodraeth Cymru i CCAUC yn datgan beth mae cyfle cyfartal yn ei gynnwys.
Ffioedd uwchlaw'r terfyn	Ffioedd uwchlaw'r terfyn yw ffioedd cwrs a reoleiddir, i'r graddau bod y ffioedd hynny'n uwch na'r terfyn ffi perthnasol (fel y mesurir at bwrpas y ddyletswydd o dan adran 10(1) y mae'r corff llywodraethu wedi methu cydymffurfio â hi).
Cynllun ffioedd a mynediad 'mewn grym' a 'gweithredol'	Bydd cynllun ffioedd a mynediad yn cael ei ystyried 'mewn grym' o ddyddiad ei gymeradwyo ac mae'n 'weithredol' o ddechrau'r flwyddyn academaidd y mae'r cynllun ffioedd a mynediad yn berthnasol iddi.
Trefn freinio	Fel rheol mae CCAUC yn defnyddio'r term trefn freinio os yw rhywfaint neu'r holl addysgu'n cael ei ddarparu ar

	<p>ran y sefydliad gan gorff gwahanol arall o dan drefniant partneriaeth. Fel rheol bydd y cwrs neu'r cyrsiau wedi cael eu cynllunio gan y sefydliad sydd â rheolaeth dros y ddarpariaeth ac a fydd, fel rheol, yn pennu ei ofynion ei hun o ran addysgu ac asesu. Mae gan y sefydliad sy'n rheoli'r ddarpariaeth gyfrifoldeb cytundebol llawn i'r myfyrwyr am ddarparu addysg, hyd yn oed os nad yw ei staff yn addysgu'r cwrs (i gyd). Fel rheol, y sefydliad fydd y corff dyfarnu ar gyfer cymhwys y cwrs hefyd, ond gall hwn fod yn drydydd parti mewn eithriad. Gweler cylchlythyr CCAUC <a href="#">Guidance on Partnership Arrangements for Franchise Education Provided on Behalf of Institutions in Wales</a>.</p>
Corff llywodraethu	<ol style="list-style-type: none"> <li>i. Ar gyfer darparwr hyfforddiant, yr ystyr yw unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reolaeth y darparwr.</li> <li>ii. Ar gyfer darparwr wedi'i ddynodi gan Lywodraeth Cymru fel sefydliad, mae'n golygu unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reolaeth y darparwr.</li> <li>iii. Ar gyfer unrhyw sefydliad arall, mae'n golygu, ar gyfer sefydliad sy'n cael ei weithredu gan gorfforaeth addysg bellach neu gorfforaeth addysg uwch, y gorfforaeth; yn achos prifysgol, y corff llywodraethu gweithredol sydd â chyfrifoldeb am reoli a gweinyddu ei refeniw a'i heiddo ac am weithredu ei materion; yn achos unrhyw sefydliad arall y mae offeryn llywodraethu'n darparu ar gyfer cyfansoddiad corff llywodraethu, y corff llywodraethu y darperir ar ei gyfer; ac mewn unrhyw achos arall, unrhyw fwrdd llywodraethwyr gan y sefydliad neu unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad, boed â chyfansoddiad ffurfiol fel corff llywodraethu neu fwrdd llywodraethwyr ai peidio.</li> <li>iv. Ar gyfer corff sy'n darparu addysg uwch ar ran sefydliad a reoleiddir mae'n golygu unrhyw bersonau sy'n gyfrifol am reolaeth darparwr.</li> </ol>
Dogfen lywodraethu	<p>Yn achos darparwr addysg uwch, a weithredir gan gwmni, memorandwm neu erthyglau cymdeithas cwmni. Mewn unrhyw achos arall, dogfen sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad ac ymddygiad y darparwr addysg uwch.</p>
Grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch	<p>Mae Adran 6(6)(b) Deddf 2015 yn nodi mai "grwpiau a dangynrychiolir", mewn perthynas â chynllun ffioedd a mynediad, yw grwpiau sydd, ar y dyddiad cymeradwyo o dan adran 7, yn cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch. Mae <a href="#">Strategaeth Gorfforedig CCAUC</a> a'r <a href="#">Dull Strategol o Ehangu Mynediad</a> yn cyfeirio at grwpiau y mae CCAUC yn ystyried eu bod yn cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch. Bydd y diffiniadau o grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn gwahaniaethu yn ôl cenhadaeth a phwrpas sefydliadau. Bydd dadansoddiad ymgeiswyr cynllun ffioedd a mynediad o grwpiau a dangynrychiolir yn ei gorff ei hun o fyfyrwyr, neu mewn addysg uwch yn fwy cyffredinol, yn sail i amcanion a champau gweithredu ei gynllun ffioedd a mynediad i gefnogi'r grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch.</p>

CCAUC	<a href="#">Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru</a>
Blwyddyn academaidd CCAUC	Ystyr blwyddyn academaidd yw 12 mis, i CCAUC mae'r cyfnod hwn rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.
Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015	<a href="#">Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015</a> y cyfeirir ati hefyd yng nghanllawiau CCAUC fel 'Deddf 2015'.
Ansawdd annigonol	Mae ansawdd addysg yn annigonol os nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n ymgymryd â'r cwrs. Ystyrir bod yr anghenion rhesymol ar gyfer addysg uwch yn cael eu diwallu ar hyn o bryd os yw darparwr yn sicrhau dyfarniad o 'Bodloni disgwyliadau'r DU' neu 'Canmoliaeth' yn y pedwar categori dyfarnu yn adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA).
Sefydliad	Nid yw Deddf 2015 yn diffinio'r term 'sefydliad' yn benodol. Mae'r enghreifftiau o gyrff y mae CCAUC yn eu hystyried fel sefydliadau'n cynnwys: prifysgolion sydd wedi'u ffurfio gan Siarter Brenhinol, Corfforaethau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach.
Mesurau	Dylai ymgeisydd cynllun ffioedd a mynediad bennu swm yr incwm cynllun ffioedd a mynediad mae'n bwriadu ei fuddsoddi mewn gwahanol gategoriâu o ddarpariaeth. Rydym yn galw'r rhain yn 'fesurau' categorïau. Dylai cynlluniau ffioedd a mynediad gostio'r ddarpariaeth yn ôl y mesurau, neu'r categorïau, a ddarperir.
Trefn ffioedd newydd	Y drefn ffioedd newydd yw'r drefn ffioedd sydd yn ei lle ers 1 Medi 2012 ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR (SAC) llawn amser sy'n galluogi darparwyr i godi hyd at £9,000 mewn ffioedd os oes gan y darparwr gynllun ffioedd cymeradwy (hyd at 2016/17) neu gynllun ffioedd a mynediad cymeradwy (o 2017/18).
Hysbysiad	Hysbysiad ysgrifenedig i gorff llywodraethu gan CCAUC.
Hybu addysg uwch	Er nad yw Deddf 2015 yn darparu diffiniad, mae canllawiau Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau ffioedd a mynediad, paragraff 4.19, yn datgan beth mae hybu addysg uwch yn ei gynnwys.
Nodweddion gwarchoddedig	Y nodweddion gwarchoddedig a gydnabyddir gan <a href="#">Ddeddf Cydraddoldeb 2010</a> yw: oedran; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil (gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd); crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred); rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Ffioedd cwrs a reoleiddir	Ffioedd cwrs a reoleiddir yw'r ffioedd sy'n cael eu talu i sefydliad gan berson cymwys, fel y diffinnir gan y Rheoliadau cysylltiedig â Deddf Addysg Uwch Cymru (2015).
Sefydliad a reoleiddir	Sefydliad a reoleiddir yw sefydliad y mae cynllun ffioedd a mynediad cymeradwy'n berthnasol iddo. Gall corff arall ddarparu addysg ar ran sefydliad a reoleiddir (o dan drefniadau breinio fel rheol).
Rheoliadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>i. Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ac sy'n darparu canllawiau neu wybodaeth bellach am Ddeddf 2015. Efallai y caiff y rhain eu hadolygu neu eu diwygio, ond ar hyn o bryd maent fel a ganlyn:</li> <li>ii. Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrсияu Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol (Cymru) 2015;</li> <li>iii. Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrсияu Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol (Cymru) (Diwygiad) 2016;</li> <li>iv. Rheoliadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad Addysg Uwch Cymru 2015;</li> <li>v. Rheoliadau Symiau Addysg Uwch Cymru 2015;</li> <li>vi. Rheoliadau Dynodi Darparwyr Addysg Uwch Cymru 2015;</li> <li>vii. Rheoliadau Hysbysiadau a Chyfarwyddiadau Cynlluniau Ffioedd a Mynediad Addysg Uwch Cymru 2015.</li> </ul>
Dilysu	Fel rheol mae CCAUC yn defnyddio'r term dilysu i ddiffinio partneriaeth lle mae cwrs neu gyrsiau sydd ar gael ac sy'n cael eu dysgu gan un sefydliad yn arwain at gwblhau'n llwyddiannus gymhwyster neu gymwysterau a ddyfernir gan sefydliad arall sydd â phwerau dyfarnu gradd (PDG). Fel rheol, bydd y cwrs (cyrsiau) wedi cael eu cynllunio gan y sefydliad addysgu ac nid y sefydliad dilysu. Bydd cytundeb dilysu yn ei le a bydd y sefydliad dilysu'n ceisio sicrwydd am ansawdd y cwrs (cyrsiau) a'r dull o'i ddarparu, ond bydd yn rhoi rhyddid i'r sefydliad dysgu o ran sut mae'n addysgu'r cwrs. Y sefydliad sydd â PDG yw'r corff dilysu a dyfarnu ar gyfer y cwrs (cyrsiau), a'r sefydliad sy'n addysgu'r cwrs (cyrsiau) sydd â'r cyfrifoldeb cytundebol llawn i'r myfyriwr am ddarparu addysg. Gweler cylchlythyr CCAUC <i>Guidance on Partnership Arrangements for Franchise Education Provided on Behalf of Institutions in Wales</i> .